# SL(6)543 – Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) 2014

## Cefndir a Diben

Mae Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i sicrhau bod strwythurau ac adnoddau priodol wedi eu sefydlu i alluogi darparu gwasanaethau gofal a chymorth integredig. Mae Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 ('y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth') yn darparu ar gyfer sefydlu saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol ar batrwm y byrddau iechyd ac yn nodi gofynion ar gyfer y byrddau hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth, gan wneud newidiadau i amcanion, aelodaeth a threfniadau gweinyddol y byrddau partneriaeth rhanbarthol. Mae diwygiadau a wneir i Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 yn ymwneud â monitro a gwerthuso'r cynnydd a wneir tuag at gyflawni cynlluniau ardal. Mae diwygiad bach hefyd yn cael ei wneud i'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021 i newid y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi adroddiadau yn y dyfodol.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 5(2), yn y diwygiad a wneir i reoliad 11(1), mae is-baragraff (l) newydd yn cyfeirio at "Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru". Fodd bynnag, diwygiwyd enw'r ymddiriedolaeth GIG hon yn gynharach eleni gan erthygl 3 o OS 2024/358 (Cy. 66) i gynnwys y gair "Prifysgol" ("University"). Felly, dylid cyfeirio ato bellach fel "Ymddiriedolaeth **Brifysgol** Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru" yn y testun Cymraeg, a "Welsh Ambulance Services **University** National Health Service Trust" yn y testun Saesneg. Er bod darpariaeth arbed yn erthygl 4 o OS 2024/358 (Cy. 66), gofynnir i

Lywodraeth Cymru esbonio pam na ddefnyddiwyd enw diwygiedig yr ymddiriedolaeth GIG hon.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 18 Tachwedd 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.